



Sachau pail ar wenyn: Gwarchodfa Glasgoed, Llanelwy, Mehefin 15. A'i dyma'r term cywir? A son am dermau gwenydaidd, beth yw'r term Cymraeg am yr isod? Dewch a'ch cynigion atom trwy'r wefan cyn y 15 Gorffennaf os am docyn llyfr £10.



Cachgi-bwm y ddaear, *Bombus terrestris*. Llun a sylw: Alun Williams

## GODRO A MENYN (tamaid arall o "Arferion a Chwaraeon ardal y Parc erstalwm")

Y gwartheg godro (y fuches) fyddai yn cael y lle blaenaf mewn triniaeth ar y gwartheg, eraill i gyd. Byddai ymdrech arbennig gan y cowmon i'w cadw mewn cyflwr glan a graenus gan mai yma yr oedd llawer o gynhaliaeth y teulu yn y cwestiwn. Buchod yn godro fyddai yn cael eu cadw wrth y tŷ, os byddai rhai hesb, yna byddent yn gorfod bod gyda'r bustach a'r heffrod eraill mewn beudai mewn llecynnau eraill o'r fferm. Gorchwyl cyntaf y bore fyddai carthu'r tail i'r domen cyn dechrau godro, wedyn byddai stôl drithroed ar gael ac ystên. Yr arferiad yn ddi-feth fyddai eistedd ar ochr dde'r fuwch i'w godro gan wasgu'r ystên rhwng eich dau ben glin, gafael mewn dwy deth a'u gwasgu mewn dull arbennig bob yn ail. Safon y godrwr fythai trwch y ffroth ar wyneb yr ystên, byddai hynny yn brawf o'i grefft. Wedyn, dygid y llaeth i'r llaethdy neu'r bwtri fel ei gelwid a'i thywallt i ddysglau. dysglau mawr llydain e'i wyneb ond heb fod yn ddyfn. Fel y byddai'r llaeth yn oeri, byddai'r hufen yn codi i'r wyneb a gwaith dyddiol fyddai hufennu'r dysglau a chodi'r hufen a'i roi mewn pot llaeth cadw. Wedi cael potiaid o hufen, byddai rhaid iddo fod mewn lle eitha cynnes yn y gaeaf, ac yn aml iawn dygid ef i'r pentan iddo dewychu a suro yn barod at ddiwrnod y corddi. Byddai dwy fath ar fuddeiau yn gyffredin, yr hen fuddai gnoc, a'r fuddai ffasiwn newydd, yr 'end over end'. ' Roedd hon wedi ei gosod ar ffrâm ar osgo arbennig wrth ei throi drosodd i gorddi. Gwres arforol y llaeth i'w gorddi fyddai oddeutu 65 gradd fabrenheit. Byddai gwres fesuredd [sic.] arbennig i'w gael at y gwaith hwn. I droi y fuddai a llaw fyddai hi ran amlaf, er byddai gan rai ffermydd bwer olwyn ddwr, neu bwer ceffyl. Tynnu y byddai'r ceffyl wrth bolyn cryf mewn cylch cyfyngedig ar ddyfais gyda werthyd [sic.] hir i'r llaethdy i droi'r fuddai. Rhyw hanner awr fel rheol fyddai potiaid cyffredin yn cymryd i gorddi. Gallech weld ar wydr bach oedd ar gaeaf y fuddai, os byddai yn lan yna byddai yn barod. Y man ronynnau o fenyn wedi ymglydio ynghyd gan adael y llaeth enwyn ar ôl. Yn awr, byddai gwraig y tŷ yn barod i'r gorchwyl o drin cynnwys y fuddai. Codid y menyn yn ofalus i'r noe a chadw'r llaeth enwyn mewn pot at y pwrpas. Gwaith llaw fyddai trin y menyn, ei droi yn y noe gan ei wasgu ar ei ochr er ceisio cael y cyfan o'r llaeth ohono. Defnyddid yr un term a'r gwair, sef 'cweirio menyn'. Ychwanegu halen a'i weithio yn ofalus i'r menyn fel y ceid unffurfiaeth blas ar y cyfan. Yna pwysid y menyn bob yn bwys ar glorian a byddai angen dipyn o arferiad i'w weithio yn bwys crwn deniadol. I'r gwaith hwn defnyddid math ar soser bren a elwid yn gyffredin yn 'scimar' gan ei gylchdroi gyda'r llaw nes byddai yn llyfn grwn a phigfain. Byddai'r print yn cwblhau'r gwaith, amrywiol luniau wedi eu cerfio yn y pren, llun alarch, dwy fesen, neu hyd yn oed llun buwch. Yna, yn ofalus iawn, pwyo ar y pen main i lawr i bellter neilltuol gan geisio cadw pob pwys yn unffurf gan adael delw'r print yn amlwg iawn ar y cyfan cyn ei gosod ochr yn ochr ar y llechen fenyn i galedu cyn i'r 'gwr hel menyn' alw i'w gasglu. Pan fyddai'r gwartheg ar adlodd ym mis Medi, byddai'n ofynnol darparu erbyn y gaeaf pan fyddai'r llaeth yn brin. Pot llaeth a thrwch o halen ar ei wyneb i'w selio rhag amhuredd a hwn fyddai menyn y teulu am y gaeaf. Menyn pot, a blasus iawn fyddai cael menyn ffres os deuai pobl ddiarth i de. [I weld y cyfan ewch i [http://llennatur.com/files/u1/TRAETHAWD\\_STEDDFOD\\_Y\\_PARC.pdf](http://llennatur.com/files/u1/TRAETHAWD_STEDDFOD_Y_PARC.pdf) ]

## Un sylw - dwy ddamcaniaeth



Sylwi ar lwybr anwedd awyren uwch Llambled fore Sul, 9 Mehefin 2013, a gweld bod cysgod ohonno yn cario ymlaen yn llwydaidd. Nid oeddwn wedi sylwi ar hyn erioed o'r blaen.  
Llun a sylw: leuan Roberts

Meddai Huw Holland Jones: *Most interesting, I don't think I've seen that before. It certainly looks like a shadow, but I think it is the shadow cast by the older contrail from a previous jet just to the left of the fresh contrail. If you look carefully at the fresh contrail you'll see it goes into the shadow cast by the older contrail just below where the two overlap, the older contrail must be at a higher altitude to cast the shadow on the lower, fresh one. The older contrail must be so angled to the fresh one that its shadow is then cast on it all the way to the horizon.*

Ateb leuan:

*I watched the contrail and it's shadow for about 1/4 hour. The plane was flying directly away from the sun with its contrail intersecting the sun itself earlier along the trail and the shadow was apparent all the time. Initially the plane had not reached the old wide contrail when I noticed the shadow, so it could only be the shadow of the contrail of the plane itself. As I did not have a camera myself, my son in law who was with me took the photo on his mobile phone. A most interesting phenomenon*

## Y bagiau diefflig 'na!




Daethpwyd o hyd i gorrff Gwylan Manaw [aderyn drycin Manaw] ar draeth Llandanwg wythnos yn ol [19 Ebrill 2013]. Roedd wedi'i lapio'n dyn mewn bag plastig. Mae'n debyg mai mynd yn sownd ynddo wrth blymio i'r dwr a wnaeth gan feddwl mai pysgodyn oedd. Roedd dolenni'r bag wedi cydio yn ei draed a'i gynffon. Dyma pam mae Cynulliad Cymru wedi pasio deddf i godi tal am fag plastig mewn siop. Yn anffodus, mae gormod ohonynt dal i'w gweld wedi'i taflu ymhobman.  
Gerallt Pennant

## Adroddiad misol Les Larsen

Mai 2013 Penisarwaun: Wedi eira'r gaeaf a thywydd oer Ebrill yr oedd y mynyddoedd yn frith o esgyrn eira. Yr oeddynt yn amlwg trwy'r mis a hyd yn oed wedi goroesi i Fehefin. Heddiw ar y 7fed o Fehefin gellir gweld lluwch eira'n isel ar Glogwyn Du'r Arddu ac ar y Carneddau gan gynnwys y Ffos Ddofn. Yr oedd rhai o drigolion yma wedi rhyfeddu gweld lluwch eira ym Mehefin ar y Du'r Arddu.

Mae blodau'r Gwanwyn efo ni o hyd yn harddu ymylon y lonydd, ond mae blodau y ddraenen wên wedi disodli yr un ddu. Yr oeddwn yn falch o weld briwydden ber/woodruff yn ffynnu ac yn ymestyn. Tyfant mewn 3 lle yma a'r 3 lle yn bell oddiwrth ei gilydd. Tua diwedd Mai fe ddechreuodd yr helygen beraroglaidd /bay willow, ddeilio; hyhi ydy'r helygen sy'n deilio cyn ymddangosiad ei blodau hyfryd. Coeden wyllt yw hon yma yn tyfu'n bell o dai. D'oedd mis Mai ddim wrth fodd pawb oherwydd y gwynt oer a gafwyd yn aml. Ar y 25ain disgynnodd y tymheredd i lawr i 3.2c. Canlyniad i hyn, gyda noson ddigwmwl a ddiwynt, oedd barrug yn y bore bach. Ar Ion wrth Glasgoed Hall ceir llwyn o goed llus yn ymestyn ar hyd y clawdd, arnynt roedd tocyn o flodau bach pinc sy'n addo teisen i rywun lwcus. Do yr oedd nifer wedi clywed a theimlo'r ddaeargryn hefyd. O.N. Mehefin y 9fed eira dal i fod yn y Ffos Ddofn



## Clatchio'r cwn



O'r hyn ydwi'n ei weld, arfer plant bach Cymru oedd clatchio neu popian blodau bysedd y cwn trwy daro y rhai oedd heb eto eu hagor ar eich llaw. Arfer plant bach Llydaw yn ôl Dominig Kervegant yw gwasgu dau ben y blodyn aeddfed fel hyn gyda bysedd y ddwy law, ond yn dynn iawn. Yna dod

a'r ddau ben ynghyd yn sydyn. Mae'r awyr y tu fewn yn cael ei wasgu allan a CHLEC - dyna hwyll!  
Llun gan DB

Gwiliwch nad oes gwenynen yn y blodyn gwn am rhywun gafodd ei ddal a ffigiad go egar.  
Tom Jones

Pwy sy'n dweud taw dim ond plant bach sydd yn gwneud hyn?!! meddai Bryan Jones (Llangamarch). Mae Bryan yn awgrymu bod y dull hwn o bopian y blodau ceg agored, trwy wasgu'r ddau ben, yn gyfarwydd i blant y de. Oes gan y darllenwyr gof o glatchio, a beth oedd eich dull?



### Pry' copyn y twyni



Dyma bry cop neu goryn yng nghanol ei we yn y twyni tywod ger y Greigddu, Cricieth. 7 Mehefin 2013

Hanes a llun: Gwyn Williams

*Yes a very good record, last observed in that 10km square back in 1988 (Llyn Ystumllyn) by the Welsh Peatland Invertebrate Survey. It's an immature male Agelena labyrinthica (the Labyrinth Spider). It has an interesting coastal distribution in Wales:*

Richard Gallon

Mae ganddo ddsbarthiad diddorol hefyd. Ewch i'r ddolen i weld:

<http://srs.britishspiders.org.uk/portal.php/p/Summary/s/Agelena+labyrinthica>

*Labyrinth spider* yn Gymraeg?; beth am pry' copyn/corryn labyrinth? Gol.

### Pla y gwyfyn corn carw



Ynys Seiriol, Môn Mehefin 1936  
*It may be of interest to record that larvae identified by Mr. W. Mansbridge, F.R.E.S., who was kind enough to examine a specimen I sent to him, as the Noctuid moth Cerapteryx (Charaeas) graminis*

*[gwyfyn corn carw] were disgorged in large quantities by young Herring-Gulls ... on June 18th, 24th, and 29th, 1936, on Puffin Island, Anglesey. With few exceptions the young birds appeared to have been fed exclusively on these larvae, and at a rough estimate I should say that from 50, to 150 were disgorged at a time.*

British Birds Awst 1936

Mae'r gwyfyn bach hwn yn gyffredin yn eich bro chi dwi'n siwr. Weithiau (fel yn yr enghraifft uchod - a ophob naw mlynedd meddai rhai) mae o'n colli arno'i hun ac yn rheibio'r borfa ar raddfa fawr, a'r adar yn cael gwledd. Welsoch chi'r fath bla o wyfynod corn carw. Rhowch floedd!

Dyma enghraifft mwy diweddar gan Janet Buckles

21 Mai 2007: *...in the grass at either side. They were present in very large numbers all the way down to the flat area between Drosgl and Gym [Carneddau]. There must have been literally tens of thousands in the area we were in - there would have been millions if they were present in the same numbers more than a few feet away from the path. Description: Different sizes, between about 1cm and 2.5 cm long but not very fat. Not hairy. Fairly non-descript in appearance, darkish brown grey.... ewch i Tywyddiadur Llén Natur a chwiliwch am Buckles i weld y gweddill.*

### Cyrff crancod?



Llun: Duncan Brown

Ai cyrff crancod ifanc oedd rhain wedi eu gwasgaru fel sbwriel ar hyd y penllanw Morfa Dinlle 3 Mehefin 2013? Na, meddai Sion Roberts ein arbenigwr bywyd y môr, nid cyrff crancod yw'r rhain... mae'r crancod dal yn fyw rhywle. Rhaid i grancod daflu eu cregyn i dyfu yn fwy, yr hen gragen sydd yma. Mae cyn gymaint ohonynt oherwydd eu bod wedi colli eu cregyn ar yr un pryd, oherwydd fod tymheredd y dwr wedi codi.

Mae'n amlwg mai *carapaces* neu *argregyn* yw rhain felly. A dyma holi Huw Holland Jones (ein arbenigwr tywydd) pryd cododd y tymheredd i ganiatau hyn i ddigwydd. A dyma ddywedodd:

*Maybe the sea temp warming up began towards the end of May, approx 29th May when temps began to rise after a chilly couple of days previous to May 28th. From May 29th more sunshine was recorded than previously, so the strong sun at this time of the year would have warmed the sea surface. Also winds were light, so less chance of cold water welling up from below as no strong wind to remove surface warming water. from 29 May to 3 June the light winds had a westerly component, so drifting to the shore. The sharper temp rise occurred after 3 June, when continuous sunshine began & air temps rose, but winds became easterly, still light...however that came after the carapace "fall". So looks to me as though the warming up & wind conditions from 29 May might be the cause of the "fall", following the two very cold nights of 25 & 26 May.*

Rhwng y 29 Mai a'r 3 Mehefin roedd y penllanw yn llai pob dydd. Felly gellir damcaniaethu mai ar y penllanw uchaf ar y 29 Mai y cyrhaeddodd yr argregyn.

### Enwau lleoedd 'onnen' yng Nghymru yn brin!

Mewn erthygl gan Peter Marren yn 'British Wildlife' Ebrill 2013 cafwyd ymdriniaeth arwynebol iawn o 'ash' fel elfen o enwau lleoedd. Dywedodd "...seem to be fewer Ash names in Scot. and Wales" heb gyfeirio at y geiriau onnen/onn/ynn sy'n siwr o fod yn gyffredin iawn!

Paul Williams

Dyma fynd i gronfa Melville Richards

<http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/cronfa.aspx>

a chwilio am \*onnen\* yn unig. Dyma gael 38 tudalen ohonyn nhw yn syth. Hmmm...ydi Peter Marren yn deall mai Cymraeg yw iaith Cymru?

### Dyddiadur John James

...ffarmwr o ogledd Penfro, 1846 – dyn ei ardal a'i gyfnod. Dadansoddiad o'i ddyddiadur, ei fywyd a'i waith gan Chris Simpkins. [http://llennatur.com/files/u1/John\\_James\\_Final-1.pdf](http://llennatur.com/files/u1/John_James_Final-1.pdf) Dyma'r trydydd dyddiadur i ddod o'r ardal honno: William Phillips ac Edward Evans yw'r lleill.



## Penrhyn y gasatanwydden

Cais am wybodaeth: "Castein-iarth" was one of the postulated origins in *The Place Names of Gloucestershire* (Smith 1964) for Castiard or Castiart as written in the 12C Cartulary for Flaxley Abbey and Forest of Dean records and is presumed to stem from the Latin *castanea* for sweet chestnut - the Crown granted the title of all the chestnuts in Dean to the Flaxley Abbey in 1153 - "*et singulis annis totam decimam castanearum de Dena*".... Does the name



'castein...' appear elsewhere in Wales in the pre-medieval period, do you know? Or other evidence for sweet chestnut?

**Rob Jarman**

Mae yna afon (?) castan yn ardal y Rhath, Caerdydd yn ôl rhestr enwau Melville Richards, ond dyna'r unig un hyd y gwelaf. Mae'n debyg mai yr un *iarth* sydd yma â hwnnw yn *Peniarth* - sef pentir, neu dir amgeuedig. Unrhyw wybodaeth pellach unrhyw un? **Gol.**

Hen goeden gastan bér ger Cwm Du, Powys - anarferol o fawr? **Llun DB**

## Mur Poeth, Ysbyty Ifan



Am fy mod i'n cerdded gwneud a ffotograffiaeth penderfynais fynd am dro gan dynnu lluniau o bob ty, pob adeilad, murddun a, hefyd olion sy'n rhan o Ysbyty Ifan. [Efallai y bydd gan radeffnyddwyr Llên Natur hanesyn am y lle dan sylw, neu esboniad o'r enw lle nad yw hynny'n eglur. Efallai hefyd y bydd rhai ohonoch ag awydd i ddilyn esiampl Helga yn eich bro chithau. Cofiwch ychwanegu Cyfeirnod Grid (Gol.)]

**Llun a hanes: Helga Martin**

Dyma un ymateb gawsom yn Oriol Llên Natur i lun Helga, gan Gaynor: *Thank you for sharing this photograph. According to a christening record in Ysbyty Ifan parish records this house Murpoeth was occupied by Morice Faulk, a cottager, his wife Elizabeth nee Jones and new daughter Gwen on 25th September 1814. I believe they are ancestors of mine. It's marked on the 1838 first edition Ordnance Survey map too.*

## Gwybodaeth handi o'r wefan

Adnabod y CHWILOD OLEW (canllaw Buglife). <http://llennatur.com/files/u1/BuglifeOilBeetleGuide2013.pdf>


Pwy ddylwn ei hysbysu os gwelaf DDOLFFIN NEU FORLO AR Y TRAETH?

[http://llennatur.com/files/u1/Pwy\\_ddylwn\\_ei\\_hysbysu\\_os\\_gwelaf\\_morfil2.pdf](http://llennatur.com/files/u1/Pwy_ddylwn_ei_hysbysu_os_gwelaf_morfil2.pdf)

GMSCymru - prosiect tymor hir i fesur llanw a thrai GWYFYNOD EIN GERDDI <http://llennatur.com/files/u1/GMSCymruCyflwyniad.pdf>

Cliciwch y dolenni i weld mwy

## Dafnau dwr ar we pry cop



**Llun: Gethin Greenhalgh, Sir Benfro**

Mae Gethin yn 10 oed ac fe anfonodd y llun hwn i Gwmni Tinopolis ar gyfer eu rhaglen Natur y Gwanwyn diweddar. Er cystal oedd y lleill, petawn i'n feirniad ar y rhaglen (neu unrhyw raglen neu gystadleuaeth arall, i oedolion hyd yn oed) mi faswn yn rhoi y wobwr gyntaf i Gethin am lun arbennig iawn. **Gol.**

\*\*\*\*

Da iawn wir Gethin. Mi fyddai hwn yn lun gwerth chweil wedi ei chwyddo i fyny yn boster i'w roi mewn ffram. **Llongyfarchiadau**

**Tom Jones**

Dyna beth yw llun arbennig iawn, mae Gethin yn haeddu pob canmoliaeth. **Bryan Jones**

\*\*\*\*

Mae hwn yn lun arbennig iawn. Da iawn i Gethin am weld rhywbeth efallai, y buasai nifer o ffotograffwyr profiadol yn ei fethu **Ifor Williams**

Dyma enghreifftiau arall o waith y plant yn y gystadleuaeth hwn:



**Y ffotograffydd ifanc y tro hwn oedd Gwion Glyn, Rhuthun.**

**Diolch i Gwmni Tinopolis am rannu gwaith y plant gyda Llên Natur. Mwy o'u gwaith yn y rhifyn nesaf**